William Alexander Smith 1854–1914

Sylfaenydd y Boys' Brigade

Hyd ganol yr ugeinfed ganrif gorfodwyd plant teuluoedd tlawd i fynd allan i weithio cyn gynted ag yr oeddent yn ddigon hen. Roedd hyn yn wir ar ddechrau'r Chwyldro Diwydiannol. Wrth i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gerdded yn ei blaen daeth deddfwriaeth newydd i amddiffyn plant a sylweddolwyd bod angen gweithgareddau addysgol a hamdden ar eu cyfer. Er mwyn ymateb i'r sefyllfa newydd hon dechreuodd eglwysi a chapeli ddarparu gweithgareddau iddynt.

Roedd gan yr efengylydd Dwight L. Moody galon dros yr hyn a alwai yn 'sancteiddrwydd ymarferol', a chefnogai lawer o brosiectau cymdeithasol. Pwysleisiai fod cyfnod yr arddegau yn allweddol yn natblygiad ieuenctid a bod arnynt angen arweiniad. Gwnaeth lawer o waith yn annog Cristnogion mewn trefi i sefydlu canghennau o'r YMCA. Yn ystod ei ymweliad â Phrydain anogodd Gristnogion i ymwneud ag ieuenctid a thlodion.

Dan ei weinidogaeth yn Glasgow y cafodd William Smith dröedigaeth a'i hysbrydolodd i weithio gyda bechgyn. Arweiniodd hyn maes o law iddo sefydlu'r Boys' Brigade a ddaeth yn fudiad byd-eang gyda chynrychiolaeth mewn 60 gwlad. Ganwyd William Smith ar 27 Hydref 1854 yn Thurso, Caithness, yr hynaf o bedwar o blant i David a Harriet Smith.

Roedd William Smith yn mynychu eglwys yn gyson ac er iddo gael ei herio i gredu yn Iesu nid oedd am ymateb yn fyrbwyll. Aeth i wrando ar Moody a ddywedodd wrth y gynulleidfa, 'Pam ddim heno?' Penderfynodd Smith gysegru ei fywyd i wasanaethu'r Gwaredwr.

Roedd eisoes yn mynychu'r Free College Church ac fe'i derbyniwyd fel aelod. Ymrodd i waith yr Ysgol Sul yn y North Woodside Mission ac ymaelododd gyda'r YMCA. Yn yr Ysgol Sul ei nod oedd ennill bechgyn i Grist, ond nid oedd yn fodlon gyda'r ymateb llugoer. Ymgodymodd

â'r methiant am flynyddoedd. Rhannodd ei ofid gyda chydweithiwr a dywedodd hwnnw, 'Oni fedri di ddefnyddio rhywfaint o ddulliau'r "Volunteers" yn yr Ysgol Sul?'

Deuai William Smith o gefndir milwrol. Bu ei dad a'i daid yn y fyddin ac yr oedd ef hefyd wedi gobeithio eu dilyn. Pan oedd yn ddeunaw oed ymunodd â'r Lanarkshire Rifle Volunteers ac fe'i gwnaed yn swyddog. Un o nodweddion ei gymeriad oedd trylwyredd mewn disgyblaeth. Datblygodd y syniad i sefydlu catrawd i fechgyn gyda lifrai a bathodyn. Trefnodd i gasglu bechgyn yr Ysgol Sul oedd dros ddeuddeg oed at ei gilydd yn Frigâd. Yn ystod yr wythnos roeddent yn dysgu driliau sylfaenol, ymarfer corff, ufudd-dod i orchmynion, prydlondeb a glendid. Roedd ar y bechgyn angen defnyddio eu hegni. Rhannodd ei syniad gyda dau frawd, James a John Hill, a threuliasant nosweithiau yn haf 1883 yn trafod a gweddïo.

Penderfynwyd ar enw ac ar arwyddlun gyda chroes ac angor a'r arwyddair 'Remember now thy Creator in the days of thy youth'. Lluniwyd hefyd gyfansoddiad a ffurflen gofrestru i'r bechgyn. Lansiwyd y Boys' Brigade ar 4 Hydref 1883 yn y Free College Church Mission, Glasgow. Yr oedd tri swyddog a 28 o fechgyn. William Smith oedd y capten a'r ddau frawd Hill yn Lefftenantiaid. Wedi tair wythnos roedd 59 o fechgyn wedi ymaelodi.

Cynhaliwyd gwersyll cyntaf y Frigâd yng Ngorffennaf 1886 yn Kyles of Bute. Roedd gwyliau gwersylla yn ddatblygiad newydd. Cyhuddwyd William Smith o ddysgu crefft rhyfel i'r bechgyn, yn enwedig pan gyflwynodd ddrylliau pren ffug. Daeth llawer o'r bechgyn yn Gristnogion. Dechreuodd arweinyddion eraill rannu ei weledigaeth ac erbyn 1885 roedd pum catrawd wedi eu sefydlu ac un yng Nghaeredin. Penderfynwyd ehangu i fod yn fudiad Prydeinig. Aeth William Smith yn ysgrifennydd llawnamser ac erbyn 1891 roedd 418 cwmni. Lledodd y mudiad i'r Unol Daleithiau, Canada, Seland Newydd, Awstralia a De Affrica. O fewn tair blynedd roedd 300 catrawd yn yr Unol Daleithiau. Bu William Alexander Smith farw ar 10 Mai 1914.

Dyma ysbrydolodd Baden Powell i sefydlu'r Boy Scouts ym 1908. Erbyn hyn mae tua 3,000 o gatrodau yng ngwledydd Prydain.